# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 14eg o Fedi 2020 ar System Zoom am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Gerallt Davies (Cadair), Carys Morgan a Wyn Evans.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Garym Roberts, Wyn Jones, Eiddwen Merritt, Ruby Williams, Jocelyn Andrew a Barry Owen.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Gorffennaf a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Soniodd y clerc ei bod wedi cysylltu ag Aelod o'r Senedd, Elin Jones a dywedodd ei bod yn mynd i edrych mewn i mater y Band Eang.

**Mater cynllunio:**
Dim.

**Llythyr ynglyn a'r Band Eang:**
Derbyniwyd lythyr oddiwrth Elin Jones A.S. a Ben Lake A.S. yn rhoi gwybodaeth fod yna gyllid ar gael nawr gan y Llywodraeth i drigolion

a fusnesau i uwchraddio eu cysylltiad band eang. Gofynwyd i'r clerc i ddosbarthu'r llythyr ar hysbysfwrdd a'i roi ar ein gwefan.

**Unrhyw Fater Arall:**
Soniodd y Cynghorydd Marc Davies bod yr ail ran o'r gwaith o osod palmant ar Rhiwgoch wedi dod i ben felly fydd y drydedd ran yn dechrau pam fydd cyllid ar gael.
Dywedodd y Cynghorydd Carys Morgan wrthym am Gynllun Dysgu Cymraeg, mae hwn ynghlwm a'r Eisteddfod Genedlaethol 2021 yn Nhregaron. Mae'n gwahodd bobl i gael gwersi dysgu Cymraeg am ddim, a'u paru gyda rhywun sy'n rhugl i ymarfer a chefnogi.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar y 13eg o Hydref.